# Peiriannydd Systemau Cwmwl TG

## Cyflog: £46,938 - £50,961 y flwyddyn (Gradd 10)

## Math o gontract: Llawn amser (36.5 awr yr wythnos), Parhaol

### Yr her

Yn CBAC, rydym yn cyfrannu at ein cymunedau addysg drwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, fel y gall ein dysgwyr gael y cyfle i gyrraedd eu potensial yn llawn. Dyma gyfle gwych felly i fod yn rhan o gorff sy'n annog ac yn gwella meddyliau'r dyfodol.

Mae CBAC yn mynd trwy drawsnewidiad digidol mawr, gan ddisodli'r hen systemau a darparu gwasanaethau cwmwl diogel a dibynadwy i staff a chwsmeriaid. Mae llwyfannau cwmwl yn ganolog i'r gwaith hwn; gan ddefnyddio Amazon Web Services (AWS) fel ein prif lwyfan cwmwl, tra bod Microsoft Azure, Microsoft 365 ac IBM Cloud yn cael eu defnyddio hefyd ar gyfer gwasanaethau a llwythi gwaith penodol. Bydd y rôl newydd hon, sef Peiriannydd Systemau Cwmwl TG yn allweddol i sicrhau bod y llwyfannau hyn yn aros yn ddiogel, yn ddibynadwy, yn gost effeithiol ac yn cyd-fynd ag anghenion busnes.

### Y rôl

Byddwch yn gweithredu fel yr awdurdod technegol a'r arbenigwr deunydd pwnc ar gyfer llwyfannau cwmwl, a'ch prif gyfrifoldeb fydd AWS a'ch cyfrifoldeb eilaidd fydd Azure a Microsoft 365. Byddwch yn dylunio, adeiladu, gweithredu a gwella amgylcheddau cwmwl CBAC yn gyson, gan sicrhau eu bod yn bodloni'r arfer gorau o ran diogelwch, gwydnwch, perfformiad, awtomeiddio ac optimeiddio costau.

Byddwch yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws timau datblygu TG, integreiddio data, isadeiledd, seiberddiogelwch a chefnogi, gan roi arweiniad arbenigol a pheiriannu ymarferol. Byddwch hefyd yn cydweithio â chyflenwyr trydydd parti a phartneriaid cefnogi i sicrhau gwasanaethau cwmwl o ansawdd uchel yn cael eu darparu sy'n cyd-fynd ag amcanion y sefydliad.

### Amdanoch chi

Rydyn ni'n awyddus i glywed gan unigolion sy'n mwynhau rolau cydweithio a meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol ar draws sefydliad. Bydd ganddynt sgiliau TG rhagorol a byddan nhw'n dangos gallu i ddarparu atebion technegol cymhleth a/neu newydd o dan bwysau amser. Bydd gennych brofiad cryf o beirianneg cwmwl, byddwch yn gyfforddus yn gweithredu fel cynghorydd technegol, a byddwch yn gallu dylunio a gweithredu datrysiadau cwmwl diogel o dan bwysau amser gan lynu wrth bolisïau a safonau'r sefydliad.

### Manteision

Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol) wedi'i addasu ar gyfer patrymau gweithio rhan amser a chywasgedig, gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn hael a nifer o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd. Gall dilyn gyrfa gyda CBAC fod yn hynod o werthfawr a byddwch chi'n cael eich annog i ddilyn y cyfleoedd gwych sydd ar gael i ddatblygu eich sgiliau, yn broffesiynol ac yn bersonol.

Mae CBAC yn gweithredu ar sail model gweithio hybrid, sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng gweithio yn swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, gan ddibynnu ar anghenion busnes. Oherwydd hynny, gwahoddir ceisiadau gan unigolion o ledled y DU ond noder y bydd gofyn gweithio'n rheolaidd yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd / Trefforest ar gyfer y rôl hon (ar fyr rybudd ar adegau). Er bod modd trafod hyblygrwydd, ar hyn o bryd mae'n ofynnol gan y tîm hwn i fod yn y swyddfa o leiaf unwaith yr wythnos ar gyfartaledd. Nid yw sgiliau iaith

Gymraeg yn hanfodol ond gwerthfawrogir y parodrwydd i ddysgu'r iaith bob amser.

Os hoffech wybod mwy am y rôl hon, neu am weithio yn CBAC, peidiwch ag oedi cyn cysylltu ag aelod o'n tîm Adnoddau Dynol (ad@cbac.co.uk). Byddan nhw'n fwy na pharod i helpu.

**Ewch i'n gwefan i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a'r ffurflen gais.**

## Dyddiad cau: 09:00, dydd Mercher 17 Mehefin 2026

**Disgwylir cynnal cyfweliadau yn ystod ar dydd Iau, 09 Gorffennaf.**

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Peiriannydd Systemau Cwmwl TG |
| **Adran:** | Digidol a Thrawsnewid |
| **Isadran:** | Gwasanaethau Technegol |
| **Yn atebol i:** | Pennaeth Seiberddiogelwch ac Isadeiledd |
| **Gradd:** | I'w Gadarnhau |
| **Lleoliad:** | Rhodfa'r Gorllewin |
| **Prif bwrpas y Swydd:** | |

Mae'r Peiriannydd Systemau Cwmwl yn gyfrifol am weithrediad, diogelwch a pheirianyddiaeth amgylcheddau cwmwl CBAC o ddydd i ddydd, gyda ffocws cryf ar Amazon Web Services (AWS). Ynghlwm â'r swydd hon mae cyfrifoldeb sylweddol am gynghori a dylunio, gan gefnogi cydweithwyr a llywio saernïaeth cwmwl, safonau ac arfer gorau ar draws y sefydliad.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

**Peirianneg a Rheoli Llwyfan Cwmwl**

- Bod yn gyfrifol am ffurfweddiad a chyflwr cyffredinol amgylcheddau AWS ac Azure CBAC
- Dylunio, adeiladu a chynnal isadeiledd cwmwl yn unol ag arfer gorau'r diwydiant a Fframwaith Pensaernïol Da AWS
- Gweithredu a rheoli Isadeiledd fel Cod gan ddefnyddio offer fel CloudFormation
- Dylunio a chynnal saernïaethau cwmwl aml-gyfrif diogel, rhwydweithio a chysylltedd
- Diffinio ac esblygu safonau, patrymau ac arferion peirianneg saernïaeth cwmwl yn barhaus
- Arwain y gwaith o ddylunio modelau gweithredu cwmwl a dulliau newydd lle nad oes cynsail yn bodoli
- Gweithredu fel awdurdod dirprwyedig i osod a gorfodi safonau peirianneg cwmwl
- Gwneud penderfyniadau technegol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar wydnwch, diogelwch a pharhad gwasanaeth ar draws CBAC

**Hunaniaeth, Diogelwch a Llywodraethu**

- Gweithredu a rheoli hunaniaeth a rheolaethau mynediad ar draws llwyfannau cwmwl, a sicrhau eu bod yn cyfateb i bolisïau CBAC ac egwyddorion ymddiriedaeth sero
- Integreiddio llwythi gwaith AWS gyda Microsoft Entra ID, gan gynnwys ffedereiddio, mewngofnodi unigol a mynediad yn seiliedig ar rôl
- Ffurfweddu a chynnal gwasanaethau diogelwch cynhenid y cwmwl, monitro a rhybuddio

- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr Seiberddiogelwch i nodi risgiau, adfer gwendidau a gwella cyflwr diogelwch yn barhaus

**Monitro, Gwydnwch ac Adfer yn sgil Trychineb**

- Ffurfweddu a chynnal perfformiad, argaeledd a monitro diogelwch
- Dylunio, profi a chynnal copïau wrth gefn yn y cwmwl, dilyniant busnes ac adfer yn sgil trychineb
- Cefnogi profi a galw am adfer yn sgil trychineb lle y bo angen

**Cefnogaeth Ymgynghorol, Project a Gweithredol**

- Gweithredu fel arbenigwr pwnc cwmwl, gan gynghori cydweithwyr TG ar saernïaeth, dyluniad ac arfer gorau
- Cefnogi agweddau cwmwl ar brojectau trawsffurfio digidol
- Darparu cefnogaeth trydydd llinell ar gyfer digwyddiadau a phroblemau sy'n gysylltiedig â'r cwmwl
- Gweithio gyda chyflenwyr a phartneriaid allanol i gefnogi darpariaeth cwmwl a gwelliant
- Cynrychioli CBAC mewn trafodaethau technegol cymhleth gyda chyflenwyr, archwilwyr a phartneriaid allanol
- Darparu cefnogaeth trydydd llinell fel rhan o'r tîm isadeiledd ehangach, gyda'r prif gyfrifoldeb am faterion sy'n gysylltiedig â'r cwmwl

**Optimeiddio costau ac adrodd**

- Optimeiddio'r defnydd o adnoddau cwmwl, cydbwyso perfformiad, gwydnwch a chost
- Gweithredu rheolaethau costau, cyllidebau, adrodd ac argymhellion ynghylch optimeiddio

**Dyletswyddau eraill**

- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd.

| Manyleb y Person | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Peiriannydd Cwmwl TG** |
| **Adran:** | Digidol a Thrawsnewid |

Meini prawf hynod ddymunol yw’r sgiliau a’r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw’r rhai a fyddai’n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod ddymunol**

- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i ymdrin ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys ymgysylltu, trafod, dylanwadu ac ysgogi.
- Unigolyn sy'n gallu ysgogi ei hun a rheoli terfynau amser sy'n gwrthdaro yn annibynnol gan ymateb yn effeithiol i ofynion sy'n newid.
- Y gallu i ddylunio, adeiladu a gweithredu llwyfannau cwmwl diogel, gwydn ar raddfa
- Y gallu i weithredu modelau diogelwch Hunaniaeth a Rheoli Mynediad (IAM) braint lleiaf a hunaniaeth yn gyntaf
- Sgiliau dadansoddol a datrys problemau cryf, gallu cydbwyso risg ac effeithlonrwydd wrth ganfod i broblemau penodol neu newydd.

**Dymunol**

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gallu cynhyrchu dogfennaeth dechnegol ysgrifenedig o ansawdd uchel ac esbonio deunydd cymhleth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd ar draws amrywiaeth o gyfryngau.

## Gwybodaeth

**Hynod ddymunol**

- Dealltwriaeth gref o saernïaeth AWS, rhwydweithio, diogelwch ac arfer gorau gweithredol
- Gwybodaeth uwch am wasanaethau craidd AWS fel:
  - EC2, Graddio Awtomatig a Cydbwyso Llwyth Elastig
  - Cymylau Preifat Rhithiol (VPC), is-rwydweithiau, grwpiau diogelwch, llwybro a chysylltedd
  - Gwasanaeth cronfa ddata berthynol (RDS) a gwasanaethau cronfa ddata a reolir
  - Lambda a saernïaeth sy'n cael ei hysgogi gan ddigwyddiad
  - Hunaniaeth a Rheoli Mynediad (IAM), Gwasanaeth Rheoli Allweddol (KMS), Rheolwr Cyfrinachau a Storfa Paramedrau
  - CloudWatch, CloudTrail ac AWS Config
  - Gwasanaethau diogelwch cynhenid AWS gan gynnwys GuardDuty, Inspector, WAF a Security Hub
  - Sefydliadau AWS
  - Dealltwriaeth o egwyddorion diogelwch ymddiriedaeth sero, a'u cymhwyso mewn cyd-destun cwmwl
- Gwybodaeth weithiol dda am Azure a Microsoft, gan gynnwys:
  - Rhwydweithiau rhithiol Azure, diogelwch rhwydweithio a pheiriannau rhithiol
  - Azure Site Recovery ac Azure Monitor
  - Microsoft Entra ID, mynediad amodol, awthentigeiddio aml-ffactor (MFA)
  - Integreiddio rhwng AWS ac Azure / Entra ID

**Dymunol**

- Gwybodaeth weithiol am wasanaethau Microsoft 365 (Exchange Online, SharePoint Online, OneDrive, Teams) gyda ffocws ar hunaniaeth, diogelwch a llywodraethu
- Gwybodaeth am lwyfannau IBM Cloud ac IBM i
- Microsoft Entra ID, mynediad amodol, SAML, Oauth2/OIDC

## Profiad

**Hynod ddymunol**

- Profiad blaenorol mewn rôl debyg, gan gynnwys:
  - Peiriannu AWS ymarferol, yn ddelfrydol mewn amgylchedd masnachol neu fenter
  - Gweithredu fel arbenigwr pwnc cwmwl ac awdurdod technegol; cefnogi a chynghori sawl tîm technegol a rhanddeiliaid
  - Dylunio a gweithredu llwyfannau cwmwl diogel mewn cydweithrediad â thimau seiberddiogelwch
- Profiad o awtomeiddio isadeiledd a phrosesau gweithredol

**Dymunol**

- Profiad o weithio mewn amgylchedd aml-gwmwl neu gwmwl hybrid
- Profiad o gefnogi rhaglenni trawsffurfio digidol ar raddfa fawr

## Hyfforddiant / Cymwysterau

**Hynod ddymunol**

- Ardystiad AWS (Pensaer Cydweithredol Datrysiadau / Gweithiwr Proffesiynol neu gyfatebol)
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus a dysgu hunangyfeiriedig

**Dymunol**

- Ardystiad Azure
- Ardystiad Microsoft 365
- Ardystiadau TG cyffredinol neu rwydweithio (A+, Network+, CCNA)
- Ardystiadau seiberddiogelwch (Security+, Security Specialty AWS neu gyfatebol)

## Telerau ac Amodau Gwasanaeth / *Terms and Conditions of Service*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd /** *Job Title:* | **Peiriannydd Systemau Cwmwl TG** / IT Cloud Systems Engineer | | |
| **Cyflog /** *Salary:* | **£46,938 - £50,961 y flwyddyn (pro-rata lle y bo'n gymwys /** *£46,938 - £50,961 per annum (pro-rata where relevant)* | **Gradd /** *Grade:* | 10 |
| **Gwyliau Blynyddol /** *Annual Leave:* | **25 diwrnod (182.5 awr) y flwyddyn. Mae CBAC hefyd yn darparu 16 diwrnod (116.8 awr) i gyfrif am Wyliau Cyhoeddus a chyfnodau Cau CBAC (gwyliau ychwanegol). Mae'r lwfansau hyn yn cael eu haddasu ar gyfer staff sy'n gweithio'n rhan-amser neu batrymau gweithio cywasgedig.** *25 days (182.5 hours) per annum. WJEC also provides 16 days (116.8 hours) to account for Bank Holidays and WJEC Closure periods (Additional leave). These allowances are adjusted for staff who work part-time or compressed working patterns.* | | |
| **Pensiwn /** *Pension:* | **Mae gofynion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn berthnasol.** *The provision of the Local Government Pension Scheme (LGPS) applies.* | | |

### Math o Gytundeb / *Contract Type:*

| **Oriau Gwaith /** *Working Hours:* | | **Hyd y Contract** / *Length of Contract:* |
|---|---|---|
| ☒ **Llawn-amser** / *Full-time* | | ☒ **Parhaol /** *Permanent* |
| ☐ **Rhan-amser** / *Part-time* | | ☐ **Tymor penodol /** *Fixed-term* |
| **Nifer yr oriau yr wythnos /** *No. of hrs per week:* | 36.5 | **Dyddiad gorffen arfaethedig** / *Planned end date:* |
| | | **Rheswm dros y cyfnod penodol** / *Reason for fixed-term:* |

**Arall /** *Other:*

| | |
|---|---|
| **Cyfnodau prysur llwyth gwaith** / *Workload Peaks:* | **Amh** / *N/A* |

### Dull Ymgeisio / *Method of Application:*

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at AD@cbac.co.uk erbyn **09:00, dydd Mercher 17 Mehefin 2026**.
**Disgwylir cynnal cyfweliadau yn ystod ar dydd Iau, 09 Gorffennaf.**

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by **09:00, Wednesday 17 June 2026**.
**Interviews are anticipated to be held in person on Thursday, 09 July 2026**